# SL(6)725 – Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026

## Cefndir a diben

Mae Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth ynghylch trafodiadau sy’n drafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch at ddibenion y dreth trafodiadau tir.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 i ddarparu bod prynu annedd unigol sy'n drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch yn peidio â bod yn drafodiad o’r fath os yw’r annedd hwnnw yn cael ei lesio wedyn i awdurdod lleol yng Nghymru. Maent hefyd yn darparu bod y dreth sydd i’w chodi mewn cysylltiad â thrafodiad sy’n ymwneud â phrynu anheddau lluosog yn cael ei gostwng os yw unrhyw un o’r anheddau hynny yn cael ei lesio wedyn i awdurdod lleol yng Nghymru, yn ddarostyngedig i amodau penodol ym mhob achos.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch hawlio ad-daliadau ac asesu’r dreth trafodiadau tir ymhellach.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o’r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i’r Gronfa honno neu i unrhyw ran o’r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw**

**wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig, gan gynnwys y dreth trafodiadau tir a gesglir, i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gostwng atebolrwydd i dalu treth trafodiadau tir o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 20 Ionawr 2026, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS:

> *"[Mae'r Rheoliadau hyn]... yn darparu ad-daliad newydd ar gyfer trafodiadau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir. Bydd yr ad-daliad newydd yn gymwys pan fo person yn prynu annedd sy'n costio £400,000 neu lai sy'n atebol i'r ad-daliad, ac yna'n ei lesio i awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn 18 mis i'r pryniant hwnnw, a phan fo'r les yn bodloni'r amodau yn y rheoliadau.*
>
> *Bwriad yr ad-daliad yw cymell unigolion i lesio eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Gynllun Lesio Cymru, sef cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu tuag at ddarparu cartrefi am renti fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag effaith digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Chwefror 2026**